

**CYNGOR CYMUNED LLANSANTFFRAED  
LLANSANTFFRAED COMMUNITY COUNCIL**

Ebost / email: [clerc.llansantffraed@btinternet.com](mailto:clerc.llansantffraed@btinternet.com)  
Tel: 01545 570323

**COFNODION HEB EU CADARNHAU**

**Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd am 8.00 pm ar nos Fawrth, y 1af o Fawrth 2016 yn yr Ystafell Ddarllen, Llanon.**

Yn bresennol:

Cadeirydd: Cyng I Reed  
Cynghorwyr G Colledge, H Hayfield, J Hughes, M James, M Lawton, L Lloyd, D Morgan a B Tomlins.

Mr Denfer Morgan (Clerc).

**1. Ymddiheuriadau**

Fe fu i'r Cynghorydd Gerallt Lewis, ynghyd â'r Cynghorydd Sir Dafydd Edwards ymddiheuro am fethu a bod yn bresennol.

**2. Cadeirydd**

Yn absenoldeb y Cadeirydd, cadeiriwyd y cyfarfod gan yr Is-Gadeirydd, y Cynghorydd Iori Reed.

**3. Materion Personol**

Dymunodd y Cadeirydd Dydd Gŵyl Dewi hapus i bawb.  
Gofynnodd yr Aelodau hefyd I'r Cynghorydd Reed roi eu dymuniadau gorau i Mrs Reed am wellhâd buan, yn salwch diweddar.

**4. Cofnodion o'r Cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 2il o Chwefror 2016**

Cadarnhawyd cofnodion o'r Cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar yr 2il o Chwefror 2016 fel rhai cywir, yn amodol ar gywiro Cofnod 3.2 i gynnwys adeiladu gris allanol ger y stordŷ.

**UNCONFIRMED MINUTES**

**Minutes of a meeting of the Council held at 8.00 pm on Tuesday, 1<sup>st</sup> March 2016 at the Reading Room, Llanon.**

Present:

Chairman: Cllr I Reed  
Councillors G Colledge, H Hayfield, J Hughes, M James, M Lawton, L Lloyd, D Morgan and B Tomlins.

Mr Denfer Morgan (Clerc).

**1. Apologies**

Councillor Gerallt Lewis together with County Councillor Dafydd Edwards apologised for their inability to attend the meeting.

**2. Chairman**

In the absence of the Chairman, the meeting was chaired by the Vice-Chairman, Councillor Iori Reed.

**3. Personal Matters**

The Chairman wished everyone a happy St David's Day.  
Members also asked Councillor Reed to convey their best wishes to Mrs Reed for a speedy recovery after her recent illness.

**4. Minutes of the Meeting held on 2<sup>nd</sup> February 2016**

The Minutes of the Meeting of the Council held on 2<sup>nd</sup> February 2016 were confirmed as being a correct record, subject to correcting Minute 3.2 to include the construction of an external step at the storage shed.

## 5. Materion yn codi o'r Cofnodion.

**5.1 Gwreiddyn Coeden ar Lwybr Troed ger Llwynteg a ffensio Cae'r Chalet**  
**CYTUNWYD** cysylltu â chontractwr er mwyn cynnig pris i wneud y gwaith hyn.

**5.2 Llwybr Brynadsain**  
**PENDERFYNWYD** gofyn i'r Clerc ddilyn i fyny ei gais am wybodaeth i'r Cyngor Sir.

**5.3 Llwybr yn arwain at y Maes Chwarae**  
**PENDERFYNWYD** archebu llwyth rall o 'scalpings' er mwyn gorffen y gwaith.

**5.4 Banciau Ailgylchu Gwydr**  
Dywedodd y Clerc nad oedd y cyfarfod gyda Swyddog o'r Cyngor Sir wedi digwydd eto. Cytunwyd taw'r lleoliad gorau fyddai ger y bin halen. Nodwyd hefyd fod yna landrover yn cael ei barcio yn yr ardal hyn.

## 6. Eiddo

**(a) Adroddiad yr Arolygiad**  
Dywedodd y Cynghorydd Lewis mai ef oedd wedi cynnal arolwg yn ystod y mis blaenorol ac nid oedd unrhyw beth i ddwyn i sylw'r Cyngor.

**(b) Diweddariad ar y Gwaith Contract**

### 1 Adeiladu stordy

Nodwyd fod y gwaith ychwanegol wedi'i gwblhau ac awdurdodwyd yr anfonebau ar gyfer eu talu yn y cyfarfod hwn.

**PENDERFYNWYD** gofyn i'r Clerc gwneud cais am grant pellach o 50% o'r Cyngor Sir i gwrdd â chost y gwaith ychwanegol hwn yn y swm o £428.

### 2 Ailorchuddio'r cyrtiau tenis

**NODWYD** fod y cais am gyllid Ewrop er mwyn darparu gorchudd aml ddefnydd ar y cyrtiau tenis wedi'i gyflwyno a disgwylwyd penderfyniad yn y gwanwyn.

## 7. Cyllid

**(a) PENDERFYNWYD** talu'r anfonebau canlynol:

## 5. Matters arising from the Minutes.

**5.1 Tree Stump on Footpath near Llwynteg and Fencing of Chalet Field**

It was **AGREED** to contact a contractor in order to provide a price to undertake this work.

**5.2 Brynadsain Path**

It was **RESOLVED** to request the Clerk to follow up his enquiry with the County Council.

**5.3 Track leading to the Playing Field**

It was **RESOLVED** to order another load of scalpings in order to complete the work.

**5.4 Glass Recycling Banks**

The Clerk advised that the meeting with the County Council Officer had yet to take place. It was agreed that the best location would be near the salt bin. It was also noted that the landrover was being parked in this area.

## 6. Property

**(a) Inspection Report**

Councillor Lewis stated that he had undertaken last month's inspection and that there was nothing to report to the Council.

**(b) Up-date on the Contract Work**

### 1 Construction of a storage shed

It was noted that the additional work had been completed and the invoices were approved for payment at tonight's meeting.

It was **RESOLVED** to request the clerk to seek a further 50% grant from the County Council with regard to the cost of this additional work in the sum of £428.

### 2 Resurfacing of the tennis courts

It was **NOTED** that the bid for EU funding to provide a multi-use surface on the tennis courts had been submitted and that the decision was expected in the spring.

## 7. Finance

**(a)** It was **RESOLVED** to pay the following invoices:

Cyflog y Clerc (Ion-Chwef-Maw):	
Mr Denfer Morgan	£581.88
CThEM (TWE)	£145.47
Lwfans y Clerc (trydan, teleffôn, band lydan, nwyddau gweinyddu)	£120
Emyr Harries (Meinciau)	£120
Arwel Jones (Golau allanol – Stordŷ)	£216
R H Davie (Stordŷ – gwaith ychwanegol)	£297.60
Tanysgrifiad Un Llais Cymru 2016-17	£169

**(b) Ceisiadau am Gymorth Ariannol 2016-17**

**PENDERFYNWYD** rhoi cymorth ariannol i'r canlynol:-

Merched y Wawr Cangen Llanon	£50
Pwll Nofio Aberaeron	£100

**8. Gohebiaeth ac Ymgynghoriadau**

**(a)** Digwyddiad Ymgysylltu Abertawe ar y Bil Llywodraeth Leol Drafft

Mynegodd y Cynghorydd Hayfield ei siom taw'r gwaith papur a dderbyniwyd ar ôl y digwyddiad oed y cyflwyniad Powerpoint ac nid y sylwadau.

**(b)** Adolygiad Cyngor Sir Ceredigion o Gysgodfannau a Seilwaith Bysiau

**PENDERFYNWYD** gofyn i'r Clerc gwblhau a dychwelyd yr holiadur.

**(c)** Ymgynghoriad Cyngor Sir Ceredigion - Adolygiad o Gludiant Ôl-16 Rhwng y Cartref a'r Ysgol/Coled

**PENDERFYNWYD** peidio ag anfon unrhyw sylwadau.

**(d)** Cysylltiad gan EE parthed Gwella'r Ddarpariaeth Signal Symudol yn Llanon.

**PENDERFYNWYD** gwahodd cynrychiolydd i ddod i gyfarfod o'r Cyngor yn y dyfodol.

**(e)** Pris ar gyfer torri porfa yn 2016-17.  
**PENDERFYNWYD** derbyn y pris a gynigiwyd gan Ground Tech yn y swm o £1980 + TAW.

**(f)** Ymgynghori ar safle yr Eisteddfod

Clerk's Salary (Jan-Feb-March):	
Mr Denfer Morgan	£581.88
HMRC (PAYE)	£145.47
Clerk's Allowance (electricity, telephone, broadband, stationery)	£120
Emyr Harries (Benches)	£120
Arwel Jones (External Light – Store Shed)	£216
R H Davies (Storage Shed - additional work)	297.60
One Voice Wales Subscription 2016-17	£169

**(b) Applications for Financial Assistance 2016-17**

It was **RESOLVED** to make financial contributions to the following:-

Merched y Wawr Llanon Branch	£50
Aberaeron Swimming Pool	£100

**8. Correspondence and Consultation Matters**

**(a)** Draft Local Government Bill Engagement Swansea Event

Councillor Hayfield expressed his disappointment that the paperwork received following the event was the Powerpoint presentation and not the response.

**(b)** Ceredigion County Council Bus Shelter and Infrastructure Review.

It was **RESOLVED** to request the Clerk to complete and return the questionnaire.

**(c)** Ceredigion County Council Consultation - Post 16 and Spare Seat Provision Home to School/College Transport Review

It was **RESOLVED** not to submit any comments.

**(d)** Approach from EE concerning Improving Mobile Signal Coverage in Llanon.

It was **RESOLVED** to invite representatives of EE to attend a future meeting of the Council.

**(e)** The quotation for grass cutting in 2016-17.

It was **RESOLVED** to accept the tender submitted by Ground Tech in the sum of £1980 + VAT.

**(f)** Consultation on a site for the National

Genedlaethol yng Ngheredigion 2020.

**PENDERFYNWYD** cynnig y meysydd arfordirol / slangs i'r de o Lanon fel safle addas posib.

Eisteddfod in Ceredigion in 2020.

It was **RESOLVED** to suggest the coastal fields / slangs to the south of Llanon as a possible suitable location.

**7. Unrhyw Fater Arall**

**7. Any Other Business**

**7.1 Penblwydd y Frenhines**

**PENDERFYNWYD** nodi derbyn darn arian dathliadol answyddogol.

**7.1 Queen's Birthday**

It was **RESOLVED** to note receipt of an unofficial commemorative coin.

**7.2 Adolygiad o'r Etholaethau Seneddol**  
Nodwyd y diweddariad a roddwyd gan y Cynghorydd Hayfield.

**7.2 Review of Parliamentary Constituencies**

The up-date provided by Councillor Hayfield was noted.

**7.3 Cangen Sefydliad y Merched Llanon**  
Dywedodd y Cynghorydd Hayfield fod y Gangen am wahodd cynrychiolydd i annerch cyfarfod.  
**PENDERFYNWYD** cynghori'r Gangen i gysylltu gyda'r Cyngor gyda dyddiadau posib.

**7.3 LLanon WI Branch**

Councillor Hayfield stated that the Branch wished to invite a representative to address a meeting.

It was **RESOLVED** to advise the Branch to contact the Council with suggested dates.

**7.4 Cyflogaeth y Clerc**

Dywedodd y Cynghorydd Tomlins for cyfnod prawf y Clerc ar ben a **PHENDERFYNWYD** cyflogi'r Clerc ar sail parhaol ar yr amodau gwaith cyfredol.

**7.4 Employment of the Clerk**

Councillor Tomlins advised that the Clerk's probation period had ended and it was **RESOLVED** to employ the Clerk on a permanent basis on the existing terms of employment.

**7.5 Hysbysfwrdd**

**PENDERFYNWYD** gadael yr hen hysbysfwrdd yn y stordŷ ar hyn o bryd.

**7.5 Notice Board**

It was **RESOLVED** to store the old notice board in the storage shed for the time being.

**8. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf – 5 Ebrill 2016**

**8. Date of Next Meeting – 5 April 2016**

Daeth y cyfarfod i ben am 9.15 y.h.

The meeting concluded at 9.15 p.m.